FLVC
Flintshire Local **Voluntary** Council
CGLISFf
Cyngor **Gwirfoddol** Lleol Sir Fflint

# Mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'n cymunedau

## Beth ydym ni'n ei wneud?



Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn cefnogi grwpiau cymunedol ac elusennau i wneud eu gwaith yn dda ac yn helpu pobl i sefydlu grwpiau newydd. Rydym yn cysylltu unigolion sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli gyda chyfleoedd lleol, a darparu gwybodaeth a chyngor a all gefnogi iechyd a lles pobl.

## Hoffech chi ganfod mwy am yr help sydd ar gael yn eich cymuned leol?



Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i gryfhau cyfraniad grwpiau gwirfoddol a chymunedol wrth ddarparu gwasanaethau llesiant ar draws Sir y Fflint. Mae ein Tîm Iechyd a Llesiant yn gwneud hyn drwy:

- Ganfod gwasanaethau neu gymorth o fudd i unigolion a helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant drwy ein gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol
- Dod â sefydliadau a gwasanaethau ynghyd ar gyfer cyfleoedd dysgu a rhwydweithio
- Cynrychioli'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn cyfarfodydd strategol a gweithredol perthnasol o fewn Sir y Fflint ac ar draws Gogledd Cymru.

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 3301204  Elusen Gofrestredig Rhif 1062644



## Hoffech chi gael help i redeg eich sefydliad neu sefydlu grŵp newydd?

Gallwn roi **cymorth a chyngor unigol safon uchel** i chi ar adeg ac mewn lle sy'n gweddu i chi ar bob agwedd o sefydlu a/neu redeg grŵp neu sefydliad, yn cynnwys:

- Dewis y strwythur cyfreithiol cywir ar gyfer eich grŵp
- Cofrestru eich sefydliad gyda'r Comisiwn Elusennau/Tŷ Cwmnïau
- Cymryd adeilad cymunedol
- Diogelu, gofynion DBS, diogelu data/GDPR.

Rhoddwn arbenigedd ar godi arian a cheisiadau am grant; gallwn helpu i ddynodi'r ffynonellau gorau o gyllid ar gyfer eich prosiectau. Rydym yn trefnu **digwyddiadau Cwrdd â'r Cyllidwr** rheolaidd lle bydd ein staff a chyllidwyr ar gael i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd eich prosiectau.

## Cwestiynau am wirfoddoli?

Canolfan Gwirfoddoli Sir y Fflint yw eich lle hanfodol lleol ar gyfer popeth yn ymwneud â gwirfoddoli.

Rydym yn gweithio gyda channoedd o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n edrych am bobl i'w helpu a gallwn eich helpu chi i **ganfod y rôl sy'n ddelfrydol i chi**, p'un ai ydych eisiau cael ychydig o brofiad, rhoi cynnig ar rywbeth newydd, cwrdd â phobl newydd, cael ychydig o hwyl, mynd allan o'r tŷ, adeiladu eich CV, teimlo'n rhan o rywbeth neu roi rhywbeth yn ôl i eraill.

Gall rheoli gwirfoddolwyr neu roi rhan iddynt am y tro cyntaf fod yn her ond gallwn eich helpu gyda phob agwedd – o hanfodlion **recriwtio gwirfoddolwyr** i'r adnoddau diweddaraf mewn **rheoli gwirfoddolwyr**. Mae ein Cyfarfod Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr a gynhelir bob chwarter yn gyfle i rannu newyddion, dysgu gan eraill a chadw'n gyfredol gyda phopeth yn ymwneud â gwirfoddoli.

## Cysylltu ni

**Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint**
CORLAN,
Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug,
Ffordd Wrecsam, YR WYDDGRUG,
Sir y Fflint CH7 1XP

01352 744000

info@flvc.org.uk

**www.flvc.org.uk**

@FLVCnews flvcpage

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 3301204 Elusen Gofrestredig Rhif 1062644